**Lesley Griffiths AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Culture and Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/LG/0937/24

Mark Isherwood MS
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

23 Mai 2024

Annwyl Mark

Heddiw rwyf wedi cyhoeddi diweddariad cynnydd ar Gynllun Dysgu a Gwella Parhaus Llywodraeth Cymru ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2023-25.

Mae'r Cynllun yn nodi amryw o gamau gweithredu a gweithgareddau parhaus sydd wedi'u cynllunio i wella dealltwriaeth a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Llywodraeth Cymru. Cafodd y Cynllun ei lywio gan yr adolygiad adran 20 a gynhaliwyd gan gyn-Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn 2022 ac mae'n cyflawni argymhelliad yr adolygiad.

Ym mis Mehefin 2023, ysgrifennodd y cyn Weinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip atoch yn egluro y byddwn yn defnyddio ein hadroddiadau cynnydd blynyddol ar y Cynllun i barhau i gyfleu'r cynnydd rydym yn ei wneud o ran gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac y byddem yn sicrhau eich bod yn cael gwybod pan gyhoeddir y diweddariadau cynnydd blynyddol.

Rwy'n falch o roi gwybod ein bod yn parhau i wneud cynnydd ac yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio. Mae'r Diweddariad ar Gynnydd yn rhoi trosolwg o'r gwersi rydym wedi'u dysgu hyd yma ac yn tynnu sylw at adnoddau a all helpu'r cyrff cyhoeddus ac eraill sy'n defnyddio dull llesiant cenedlaethau'r dyfodol i drefnu a newid eu ffordd o weithio.

Yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Culture and Social Justice**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.